Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | ChiefInspector@estyn.gov.uk |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 13/05/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymgynghoriad: trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Amdanom ni**

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**
Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried y canlynol:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion y dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Cwestiynau**

**Nodau i danategu'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020**

Yn adran 2 o'r ddogfen ymgynghori, amlinellwn set o nodau y cynigiwn y byddant yn tanategu'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer y cymwysterau penodedig yng nghyfres arholiadau haf 2020. Ar gyfer pob nod, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno ag ef ac eglurwch yn glir y rhesymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ag unrhyw un o'r nodau, amlinellwch beth allai fod yn ddewis arall addas yn eich barn chi.

**4. Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfan lefel cymhwyster a threfn restrol iddynt yn derbyn gradd.**

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

**Cytuno**

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- 2.1 – Wrth sicrhau y bydd deilliannau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 yn debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol i leihau risg annhegwch i ddysgwyr dros gyfnod, dylem ystyried bod gan ysgolion garfanau 'gwannach' a 'chryfach'. Byddai'n fuddiol i ganolfannau nodi pam y gallai proffiliau graddau fod yn wahanol eleni i flynyddoedd blaenorol, h.y. i roi cyfrif am y garfan wannach / y garfan gryfach. Hefyd, gallai hyn gynnig rhywfaint o sicrwydd i ganolfannau sy'n pryderu na fyddant efallai yn cael clod am gael carfan gryfach eleni.
- 2.2 – Bydd yn bwysig i ganolfannau wneud yn siŵr fod eu ceisiadau yn gyflawn a chywir.

**5. Bydd y canlyniadau ar gyfer haf 2020 yn debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol.**

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

**Cytuno**

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- 2.12 – Bydd angen i'r model safoni ystadegol a ddefnyddir gan CBAC gyfuno

amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys dosbarthiadau graddau disgwyliedig ar lefel genedlaethol, yn ogystal â chanlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol ar lefel canolfan unigol, a phroffil cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr.  Mae safoni yn bwysig i sicrhau bod deilliannau'n deg ar gyfer unigolion a charfanau o ddysgwyr.

- 2.15 – Mae angen eglurder ynglŷn â'r hyn mae 'perfformiad cenedlaethol blaenorol' yn ei olygu.  Os yw'r pwynt hwn yn cyfeirio at gyrhaeddiad cenedlaethol blaenorol disgyblion cyn cyfnod allweddol 4, fel asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 neu ddata profion cenedlaethol, dylid gwneud hyn yn glir gyda rhesymeg gref.

**6. Mae'n debyg mai model safoni ystadegol sy'n defnyddio tystiolaeth hanesyddol o berfformiad canolfannau a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr, ynghyd â'r data asesu canolfannau, fydd y dull tecaf a fydd yn cynhyrchu graddau cyfrifedig mwy cywir.**

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

**Cytuno**

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- 2.16/7 – Mae defnyddio proffil hanesyddol dros y tair blynedd ddiwethaf yn bwysig.  Mae angen ychydig o le i addasu lle mae data caled ar gael (profion cenedlaethol, ac ati – felly, pynciau craidd yn bennaf) ar gyfer ysgolion i ddangos bod carfan eleni yn well na charfanau'r tair blynedd flaenorol (os yw rhagfynegiadau yn uwch).
- 2.17 – Beth yw'r sefyllfa o ran nifer fach iawn o ysgolion sydd wedi cael eu hagor / ffedereiddio, ac ati, yn ddiweddar, nad ydynt yn gallu darparu gwybodaeth hanesyddol am y ganolfan?  A fydd y dadansoddiad gwerth ychwanegol yn bosibl o hyd ar lefel disgybl?
- Rydym yn cytuno'n gryf â'r egwyddorion sy'n sail i'r broses safoni.  Mae tystiolaeth arolygu yn awgrymu bod ysgolion da fel arfer yn adnabod eu disgyblion yn dda, a gallant ragweld deilliannau eu disgyblion yn gywir.  Felly, maent yn debygol o roi amcangyfrifon cywir i CBAC am raddau.  Ar y llaw arall, gallai ysgolion gwannach ddarparu rhagfynegiadau mwy chwyddedig o ddeilliannau disgyblion.
- 2.19 – Os canfyddir bod canolfannau yn cyflwyno graddau mwy hael na'r disgwyl, dylid cynnal ymchwiliadau, a bydd angen i ganolfannau esbonio'r rhesymau dros eu proffil graddau.  Gellid rhoi cyfle i ysgolion ddarparu data caled ychwanegol (fel y nodir uchod) i gyfiawnhau eu barnau, er y gallai hyn arwain at ddull anghyson neu bwysau ar athrawon i gasglu a chyflwyno gwybodaeth ychwanegol.
- 2.20 – Cynhaliwyd yr ymchwil sy'n awgrymu y gall athrawon roi ymgeiswyr yn

eu safle cywir o dan amgylchiadau sy’n wahanol i’r amgylchiadau sy’n wynebu athrawon ar hyn o bryd. Bydd y safleoedd yn cael eu trefnu’n rhithiol nawr, a bydd hyn yn cynnwys llawer o aelodau staff, ac efallai na fydd rhai ohonynt yn gallu bod yn bresennol. Gallai fod amrywiadau yn y dystiolaeth i athrawon ei defnyddio at ddibenion cymedroli, a chynorthwyo â threfnu safleoedd yn gywir. Felly, dylid cymryd gofal wrth ystyried trefnu disgyblion yn ôl eu safle, yn enwedig mewn canolfannau mwy.

**7. Cyn belled ag y bo modd, dylem sicrhau na fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig, dan anfantais o gymharu â blynyddoedd blaenorol.**

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno’n gryf, cytuno, cytuno’n rhannol ac anghytuno’n rhannol, anghytuno, anghytuno’n gryf, ddim yn siŵr).*

**Cytuno**

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno’n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi’n ei ystyried yn ddewis arall neu’n ateb addas, lle bo hynny’n bosibl.)*

- 2.28 – Mae angen cymryd gofal â rhai grwpiau o ddysgwyr – yn enwedig disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim. Gan fod y niferoedd o fewn y garfan hon yn amrywio bob blwyddyn, nid yw tueddiadau a phatrymau mor glir, yn enwedig mewn ysgolion lle mae nifer y disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn isel iawn, e.e. yn is na 10% o’r garfan.
- 2.2.8 – Sut bydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau bod disgyblion sydd â hawl i elwa ar drefniadau wedi cael y rhain ar gyfer profion mewnol ysgolion, ffug arholiadau ac arholiadau [gan gynnwys NEA], yn unol â’r arweiniad. Er nad yw Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa i allu herio ysgolion ynghylch graddau, mae hyn o bosibl yn agored i’w herio.
- 2.34 – Dylid ystyried gwelliannau tebygol y byddai rhai ymgeiswyr yn eu gwneud o UG i Safon Uwch, ac felly, byddai hyn yn effeithio ar eu safle o brofion blaenorol. Dyma ble mae gwybodaeth canolfan am ddisgyblion yn hanfodol.

**8. Bydd prosesau ar gyfer cyhoeddi graddau yn haf 2020 yn defnyddio canlyniadau o unrhyw gymwysterau ac unedau sydd eisoes wedi'u cwblhau a'u dyfarnu. O'r herwydd, gall y dystiolaeth a ddefnyddir fod yn wahanol ar draws y mathau o gymwysterau.**
a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

**Cytuno**

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- 2.36 – Hefyd, dylid ystyried gwelliannau tebygol y byddai rhai ymgeiswyr yn eu wneud o UG i Safon Uwch, a byddai hyn felly yn effeithio ar eu safle o brofion / arholiadau blaenorol.  Dyma ble mae gwybodaeth canolfan am ddisgyblion yn hanfodol.
- 2.36 – Os yw ymgeiswyr TGAU wedi cael eu cofrestru'n gynnar ar gyfer rhai unedau, byddai ychydig o'r disgyblion hyn wedi gallu ailsefyll y papur i wella eu canlyniadau yn yr haf, ac mae'n debygol y byddai gwelliannau wedi cael eu gweld yn yr amgylchiadau hyn.

**Proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020**
Yn adran 2 y ddogfen ymgynghori, rydym yn amlinellu nodweddion y broses apelio benodol yr ydym yn cynnig eu cyflwyno ar gyfer y cymwysterau penodedig ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020. Ar gyfer pob cwestiwn isod, nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r cynnig ac esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ag unrhyw un o'r cynigion, amlinellwch yr hyn a allai fod yn ddewis arall addas yn eich barn chi.

**9. Ni fydd dysgwyr sy'n anfodlon â'u canlyniadau'r haf hwn yn gallu apelio yn erbyn y dyfarniad proffesiynol a wnaed gan eu canolfan, neu'r weithdrefn a ddefnyddiwyd gan eu canolfan er mwyn dod i'r dyfarniad hwn.**
a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

**Cytuno**

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- 2.50/51 – Mae cyfleu’r neges hon i rieni yn hanfodol – mae angen iddynt fod yn ymwybodol o’r sefyllfa i osgoi rhoi Penaethiaid Canolfannau dan bwysau.
- 2.61 – Gallai camgymeriadau gweithredol wrth gyflwyno data fod yn broblem, yn enwedig â charfanau mwy.

**10. Bydd canolfannau'n gallu apelio i CBAC ar y sail eu bod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo gradd, bod y graddau a gyfrifwyd ac a gynhyrchwyd gan y model safoni ystadegol wedi'u dyrannu neu eu cyfleu yn anghywir, a/neu bu methiant gweithdrefnol arall gan CBAC.**

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno’n gryf, cytuno, cytuno’n rhannol ac anghytuno’n rhannol, anghytuno, anghytuno’n gryf, ddim yn siŵr).*

**Cytuno**

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno’n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi’n ei ystyried yn ddewis arall neu’n ateb addas, lle bo hynny’n bosibl.)*

- Mae’n ymddangos bod y trefniadau i ganolfannau apelio i CBAC yn deg a phriodol.

**11. Ar gyfer canlyniadau a gyhoeddir yr haf hwn, dylem ei gwneud yn ofynnol i CBAC ystyried apeliadau a gyflwynir gan ganolfannau yn unig, ac nid y rhai a gyflwynir gan ddysgwyr unigol.**

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno’n gryf, cytuno, cytuno’n rhannol ac anghytuno’n rhannol, anghytuno, anghytuno’n gryf, ddim yn siŵr).*

*Cytuno’n gryf*

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno’n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi’n ei ystyried yn ddewis arall neu’n ateb addas, lle bo hynny’n bosibl.)*

- *2.69* – Os bydd gradd disgybl yn newid (neu nifer graddau disgyblion yn newid), mae angen i ganolfannau wneud yn siŵr nad yw hyn wedi arwain at addasu graddau disgyblion eraill yn unol â’r safle.

**12. Os yw proses apelio yn nodi gwall a fyddai'n arwain at radd is i ddysgwyr heblaw'r rhai a nodwyd yn yr apêl, yna ni ddylai CBAC ostwng y graddau hyn.**
a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

*Cytuno'n gryf*

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- 2.73 – Rydym yn cynghori nad yw newid yng ngradd un dysgwr yn arwain at addasu graddau disgyblion eraill, yn unol â'r safle, ac yn cyfleu hyn.

**13. Dylid bod yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob penderfyniad apêl yn cael ei gymryd gan bobl nad oeddent yn rhan o'r broses a fu'n arwain at gyhoeddi'r canlyniadau hynny.**
a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

*Cytuno*

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- Rydym yn cefnogi'r dull i gadw pellter rhwng y rhai sy'n ymwneud ag apeliadau a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r broses sy'n arwain at gyhoeddi'r canlyniadau.

**14. Dylid caniatáu i CBAC redeg proses symlach lle mae'r penderfynwr yn ystyried adroddiad gan yr aelod staff sy'n cynnal yr adolygiad gweinyddol ac unrhyw sylwadau a wneir gan y ganolfan yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw.**
a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

*Cytuno*

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

Rydym yn cefnogi'r dull hwn – bydd yn hanfodol i reoli cyfleu'r neges hon yn ofalus i wneud yn siŵr ei bod yn cael ei deall fel neges sy'n deg a chadarn.

**15. Unig swyddogaethau'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) yr haf hwn fydd adolygu:**
1. i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ac â'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain, neu
2. os nodwyd unrhyw wall yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r radd/graddau a gyfrifwyd a/neu yn y radd/graddau a gyhoeddwyd,
p'un a gafodd y gwall hwnnw ei gywiro'n iawn.
a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
*(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr).*

*Cytuno'n gryf*

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
*(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)*

- Dylai'r swyddogaethau EPRS a awgrymwyd roi sicrwydd i randdeiliaid a'r cyhoedd fod y trefniadau ar gyfer Haf 2020 wedi cael eu gweithredu'n deg ac yn gyson.

**Asesiad Effaith Integredig**
Asesiad Effaith Rheoleiddio
Yn adran 3 o'r ddogfen ymgynghori, rydym wedi nodi'r effeithiau rheoleiddiol yr ydym yn eu rhagweld o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. *Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig (ion) a / neu effeithiau rydych chi'n cyfeirio atynt.*

**16. O ran yr effeithiau rheoleiddiol a nodwyd gennym yn yr adran hon, a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i'w lleihau? Os felly, amlinellwch y camau hyn yn y gofod isod.**

Bydd cyfathrebu â rhanddeiliaid, a chymorth ganddynt, gan gynnwys rhieni, yn ystyriaeth bwysig yn ystod y cyfnod hwn.  Nid ystyriwyd yr effaith ar rieni yn yr adran hon.
- 3.15 – Er y bydd canolfannau'n cyflwyno'r gweithgaredd yn lle ystod arferol y

gweithgarwch arholiadau, bydd y personél sy’n cael eu cynnwys yn wahanol. Bydd yn effeithio’n uniongyrchol ar staff addysgu yn fwy na’r prosesau arferol.

**17a. A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) nad ydym eisoes wedi'u nodi? *(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod)***

i. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
iv. Ddim yn siŵr

ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill

**17b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.**

- Nid ystyriwyd yr effaith ar rieni. Mae llawer o’r effaith yr un fath â’r effaith ar gyfer dysgwyr. Gallai fod rhaid i rieni ddelio â chanlyniadau emosiynol ac ymarferol y ffaith fod eu plentyn yn siomedig â’i ganlyniadau heb unrhyw broses apelio ar gyfer unigolion.

- Gallai cyfathrebu clir â rhieni ac arweiniad neu gwestiynau cyffredin helpu rhieni a rheoli unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Dylai’r iaith a ddefnyddir ystyried y ffaith nad yw rhai rhieni mor gyfarwydd â’u plant ag iaith addysg ac arholiadau, ac efallai na fyddant yn siarad Saesneg.

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Yn adran 3 o'r ddogfen ymgynghori, rydym wedi ystyried effeithiau posibl y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig (ion) a / neu'r effeithiau rydych chi'n cyfeirio atynt.

**18. O ran yr effeithiau a nodwyd gennym yn yr adran hon, a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i'w lleihau? Os felly, amlinellwch y camau hyn yn y gofod isod.**

- Rhaid i’r cynigion sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn cael eu hystyried, a bod pob grŵp o ddysgwyr yn cael cyfleoedd cyfartal a theg pan gânt eu rhoi mewn safleoedd.

**19a. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig nad ydym wedi'u nodi? *(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod).***

i. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
iv. Ddim yn siŵr

iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill

**19b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill**
**yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.**

- Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu.

**Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Yn adran 3 o'r ddogfen ymgynghori, rydym hefyd wedi ystyried effeithiau posibl y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar yr Iaith Gymraeg. Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig (ion) a / neu effeithiau rydych chi'n cyfeirio atynt.

**20a. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nad ydym wedi'u nodi? *(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod)***

i. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
iv. Ddim yn siŵr

iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill

**20b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.**

- Bydd yn bwysig fod yr holl ddysgwyr / canolfannau yn gallu mynd at ddogfennau ac arweiniad dwyieithog ar y prosesau safoni ac apelio, fel ei gilydd.

**21a. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol (bwriadol neu anfwriadol) mewn perthynas â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg nad ydym wedi'u nodi? *(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod)***

i. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
iv. Ddim yn siŵr

iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill

**21b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.**